Y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad

IRP – 02

Ymateb gan Elin Jones AC, Plaid Cymru Ceredigion

30ain o Hydref 2008

Annwyl Gadeirydd

Hoffwn gynnig ychydig sylwadau ar yr ymchwiliad presennol ar lwfansau ACau.

1. Mae rhai wedi crybwyll y dylid cynyddu cyflog pob AC a gwaredi'r lwfans byw oddi cartref. Rwy'n gwrthwynebu'r syniad yma gan y byddai'n annheg i'r rhai – fel fi – sy'n byw mor bell o Gaerdydd fel nad oes unrhyw opsiwn ond aros dros nos yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae system o gyflog + digolledu costau byw yn well adlewyrchiad o wir gost Acau o bob rhan o Gymru.
2. Fe ddylid digolledu AC am gostau byw dros nos yng Nghaerdydd yn rhinwedd eu dyletswyddau. Ers fy ethol yn AC, rwyf wedi prynu fflat yng Nghaerdydd. Er hyn, nid wyf o anghenraid o'r farn bod rhaid i'r gyfundrefn yma barhau. Os y penderfyniad yw i beidio ariannu ad-daliad llog morgeisi, yna byddwn yn gofyn am 2 fater i'w hystyried o flaen llaw.
    a) Dylid cyflwyno cymhariaeth lawn o gost ad-dalu morgais, ad-dalu rhent ac ad-dalu ystafell westy ym Mae Caerdydd [ac felly o fewn cerdded i'r Senedd]. Ar sail y dystiolaeth yma y dylid penderfynu ar y gyfundrefn i'r dyfodol.
    b) Os gorfodir Acau presennol i werthu eiddo, yna dylid rhoi cyfnod trosiannol digonol iddynt i wneud hynny e.e. dwy flynedd.
3. Beth bynnag fydd y gyfundrefn derfynol, yna fe ddylid sicrhau digolledu unrhyw gostau sy'n deillio o fyw yng Nghaerdydd o ddydd Llun hyd ddydd Iau. Fe dorrodd fy oergell yn fy fflat y llynedd, ac roedd yn rhaid i mi benderfynu ai ei thrwsio neu brynu oergell newydd. Ar sail cost a lleihau gwastraff penderfynais ei thrwsio a hawlio'r gost yn ôl o'r lwfans. Cost resymol ac angenrheidiol yn deillio allan o fyw yng Nghaerdydd oedd y gost yma – ac mae'n adlewyrchu realiti cost cynnal a chadw lle byw yng Nghaerdydd.

   Ar y cyfan, yn fy marn i, mae cyfundrefn o dalu costau byw angenrheidiol yng Nghaerdydd ar sail anfoneb gwariant, yn rhesymol ac yn angenrheidiol. Tybiaf fod y rhan fwyaf o Acau fel fi, heb unrhyw incwm ychwanegol ac felly mewn sefyllfa na fedrant gynnal cartref yn yr etholaeth ac ail le byw yng Nghaerdydd.
4. Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at y gymhariaeth rhwng lwfansau ACau ac ASau. Ers llynedd mae'r Tŷ Cyffredin wedi awdurdodi gwariant o £10,000 fel Lwfans Cyfathrebu. Yng Ngheredigion er enghraifft, mae'r lwfans yna yn cael ei ddefnyddio yn y Cambrian News i hysbysebu cymorthfeydd yr AS. Mae gwerth yr hysbyseb yma tua £100 yr wythnos. Mae'r Lwfans hefyd yn ariannu adroddiad o waith yr AS wedi ei ddosbarthu drwy'r post ar gost o sawl mil o bunnau i'r trethdalwyr. Nawr, dydw i ddim o anghenraid yn cefnogi Lwfans o'r

Am gysylltu ag Elin? Want to contact Elin?

w: www.ElinJones.com **t:** 01970 624516 **e:** elin.jones@wales.gov.uk

swyddfa/office: Ty Goronwy, 32 Heol y Wîg/Pier Street, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 2LN
hefyd /also: Chancery Lane, Aberteifi/Cardigan, Ceredigion. SA43 1HD

math yma, neu o'r swm yma, i ACau. Ond yn sicr ar hyn o bryd mae'r adnoddau cyfathrebu sylweddol sydd gan AS yn ei roi mewn sefyllfa freintiedig dros yr AC. Mae'n rhoi'r argraff fod yr AS yn fwy prysur na'r AC - drwy hysbysebu ar gost y trethdalwyr. O'r hyn yr ydw i wedi gweld ar hyd a lled Cymru, nid oes unrhyw dystiolaeth fod unrhyw AS yn nodi yn yr hysbyseb yma y dylid cysylltu â nhw ar faterion San Steffan yn unig. Mae hyn yn ei dro yn arwain at ASau yn para i ymwneud â materion sydd wedi eu datganoli. Mae yna 3 opsiwn, yn fy marn i, i gywiro'r anghyfartaledd yma.

i) gofyn i San Steffan orffen y Lwfans yma i ASau yng Nghymru

ii) cyflwyno Lwfans tebyg i ACau

iii) sicrhau os bydd AS yng Nghymru yn defnyddio'r Lwfans yna mae'n rhaid sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio ar faterion San Steffan yn unig a bod pob hysbyseb ac adroddiad yn gwneud hyn yn glir i'r etholwyr.

Fe rydw i yn ffafrio'r opsiwn olaf yma.

Gobeithio bod fy marn ar wahanol agweddau o'ch gwaith o ddiddordeb i chi, os nad o ddefnydd.
Yn gywir

Elin Jones, AC